

Hwyluso a chynnal rhaglenni awyr agored

Trosolwg

Mae'r safon yma'n ymwneud â hwyluso a chynnal rhaglenni awyr agored. Mae'r safon yma'n cynnwys, cychwyn, monitro, cefnogi a thywys y sawl sy'n cymryd rhan drwy'r profiad awyr agored.

Mae gan y safon yma bum deilliant:

1. cychwyn y rhaglen awyr agored
2. monitro, cefnogi a thywys y sawl sy'n cymryd rhan drwy'r rhaglen awyr agored
3. rheoli lles corfforol ac emosiynol y sawl sy'n cymryd rhan
4. cwblhau ac adolygu rhaglenni awyr agored

Mae'r safon yma ar gyfer staff sydd â pheth profiad o weithio yn yr awyr agored sy'n gallu gweithio heb oruchwyliaeth uniongyrchol. Cyd-destunau nodweddiadol fydd gweithio gydag oedolion, plant a phobl ifanc yn y meysydd canlynol:

- dibenion adloniant
- profiadau anturus
- dibenion addysgol
- anghenion cyfundrefnol

Hwyluso a chynnal rhaglenni awyr agored

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Cychwyn y rhaglen awyr agored *

- 1. sefydlu eich swyddogaeth eich hun gyda'r grŵp**
- 2. negodi rheolau sylfaenol ar gyfer ymddygiad**
- 3. rhyngweithio gyda'r sawl sy'n cymryd rhan yn unol â gofynion y rhaglen a'r rheoliadau a gweithdrefnau cyfundrefnol.**
- 4. addasu eich ymddygiad eich hun i gwrdd ag anghenion y sawl sy'n cymryd rhan a diben y profiad**
- 5. dewis, gwirio a pharatoi'r amgylchedd a'r cyfarpar ar gyfer y profiad**
- 6. sicrhau bod y sawl sy'n cymryd rhan yn deall sut i ddefnyddio'r cyfarpar yn unol â rheoliadau, deddfwriaethau a gweithdrefnau cyfundrefnol**
- 7. gwneud yn siwr bod ffiniau effeithiol ond hyblyg wedi eu sefydlu yn dilyn rheoliadau, deddfwriaethau a gweithdrefnau cyfundrefnol.**

Monitro, cefnogi a thywys y sawl sy'n cymryd rhan drwy'r rhaglen awyr agored

- 8. cydbwyso eich swyddogaethau eich hun er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau i'r sawl sy'n cymryd rhan**
- 9. monitro'n barhaus y lefel o her ac antur mewn perthynas â throthwyon antur y sawl sy'n cymryd rhan a'u gallu i ymdopi.**
- 10. amrywio gweithgareddau i gwrdd ag anghenion y sawl sy'n cymryd rhan**
- 11. cyfathrebu gyda'r sawl sy'n cymryd rhan mewn modd sy'n cwrdd â'u hanghenion, y sefyllfa ac amcanion y profiad**
- 12. cynnig adborth pan fo hyn yn cefnogi'r holl amcan**
- 13. paratoi'r sawl sy'n cymryd rhan i ddelio ag amgylchiadau a regwelir a rhai na ellir mo'u rhagweld**
- 14. cadw sylw'r sawl sy'n cymryd rhan at beryglon, ffiniau diogelwch a chytuno ar gyfrifoldebau dros y profiad a'r lleoliad**

Rheoli lles corfforol ac emosiynol y sawl sy'n cymryd rhan

- 15. dilyn rheoliadau cyfundrefnol, deddfwriaethau a gweithdrefnau ar gyfer y gweithgaredd**
- 16. rheoli risg er mwyn cadw'r gweithgaredd yn ddiogel gan ddilyn rheoliadau a gweithdrefnau cyfundrefnol, gan gymryd manteision cymryd risgiau i ystyriaeth**
- 17. monitro ar gyfer dechreuad perygl corfforol ac emosiynol, gan cynnwys *amodau anffafriol ***
- 18. annog y sawl sy'n cymryd rhan i warchod diogelwch yr unigolyn a'r grŵp**
- 19. annog ymddygiad cadarnhaol a delio'n effeithiol gydag ymddygiad annerbyniol**
- 20. ymyrryd er mwyn rhwystro niwed neu ei gyfyngu**
- 21. cydnabod a diogelu cyfyngiadau corfforol ac emosiynol y sawl sy'n cymryd rhan a'u galluogi i gadw eu hurddas a'u hunan barch.**
- 22. cynnal ac amrywio rheolau sylfaenol yn unol â rheoliadau, deddfwriaethau a gweithdrefnau cyfundrefnol**
- 23. ymateb i ddigwyddiadau ac argyfyngau yn unol â rheoliadau, deddfwriaethau a**

Hwyluso a chynnal rhaglenni awyr agored

gweithdrefnau cyfundrefnol.

24. monitro gweithredoedd ac ymddygiadau'r bobl eraill sy'n ymwneud â'r gweithgaredd.

*Cwblhau ac adolygu rhaglenni awyr agored **

- 25. annog y sawl sy'n cymryd rhan i asesu prun ai yw'r profiad a'r amgylchedd wedi cyflawni eu hamcanion
- 26. gwerthuso effeithiolrwydd y rhaglen a rhannu eich canfyddiadau gyda'r sawl sy'n cymryd rhan
- 27. galluogi'r sawl sy'n cymryd rhan i roi adborth i'w helpu i ddysgu o'u profiad, i atgyfnerthu cynnydd a chadw morâl.
- 28. nodi unrhyw bwyntiau dysgu ar gyfer gweithredu yn y dyfodol
- 29. rhannu gwybodaeth a chynghor am gyfleoedd ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol

Hwyluso a chynnal rhaglenni awyr agored

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Cychwyn y rhaglen awyr agored

1. y ddeddfwriaeth, canllawiau, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau cyfredol sy'n berthnasol i ymarfer eich gwaith ac sydd raid i chi gadw atynt
2. amrediad a chyfyngiadau eich gallu, cyfrifoldebau ac atebolrwydd fel ag y mae'n berthnasol i'ch swydd
3. sut i sefydlu eich swyddogaeth eich hun o fewn y grŵp gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau a dulliau o gyfathrebu
4. pam ei bod yn bwysig negodi rheolau sylfaenol ar gyfer ymddygiad
5. pam ei bod yn bwysig annog y sawl sy'n cymryd rhan i rannu cyfrifoldeb dros eu dysgu fel unigolion ac ar gyfer y grŵp a sut i wneud hynny
6. dulliau o nodi nodau'r rhaglen, fel y maent yn gysylltiedig ag **anghenion**, galluoedd a photensial y sawl sy'n cymryd rhan
7. sut i lunio'r rhaglen er mwyn cwrdd â'r nodau, a herio gallu'r sawl sy'n cymryd rhan, ond heb fynd y tu hwnt i hynny
8. pam ei bod yn bwysig gwneud yn siwr bod y rhaglen yn cydfynd â gofynion iechyd a diogelwch.
9. sut i ddewis, gwirio a pharatoi'r cyfarpar a'r amgylchedd ar gyfer y rhaglen yn unol â rheoliadau, deddfwriaethau a gweithdrefnau.
10. pwysigrwydd nodi'r dylanwadau a pheryglon allanol i'r rhaglen
11. pam ei bod yn bwysig gwneud yn siwr bod y rhaglen o fewn eich gallu i'w rheoli
12. sut i wneud yn siwr bod ffiniau effeithiol ond hyblyg wedi eu sefydlu.

Monitro, cefnogi a thywys y sawl sy'n cymryd rhan drwy'r rhaglen awyr agored

13. sut i gydbwysu eich swyddogaethau eich hun er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau i'r sawl sy'n cymryd rhan
14. amrywiaeth o weithgareddau a thechnegau i gwrdd ag anghenion y sawl sy'n cymryd rhan
15. offer a thechnegau cyfathrebu fydd yn cefnogi'r sawl sy'n cymryd i gwrdd â'u hanghenion
16. dulliau o roi adborth fydd yn cefnogi amcanion y sawl sy'n cymryd rhan
17. sut i baratoi'r sawl sy'n cymryd rhan i ddelio ag amgylchiadau a regwelir a rhai na ellir mo'u rhagweld, ac i ddatrys problemau wrth eu hunain
18. cytuno gyda'r sawl sy'n cymryd rhan ynglŷn â chyfrifoldeb y sawl sy'n cymryd rhan a chydweithwyr dros adrodd am beryglon, damweiniau a damweiniau a osgowyd o drwch blewyn, a thros asesu a rheoli risg.
19. sicrhau bod y sawl sy'n cymryd rhan yn dilyn y gweithdrefnau argyfwng

Rheoli lles corfforol ac emosiynol y sawl sy'n cymryd rhan *

20. *dulliau o reoli risg er mwyn cadw'r rhaglen mor ddiogel â sydd angen, gan gymryd manteision cymryd risgiau a gofynion iechyd a diogelwch i ystyriaeth*
21. *pam ei bod yn bwysig monitro ar gyfer dechreuad perygl corfforol ac emosiynol ac amodau anffafriol*
22. *dulliau o annog ymddygiad cadarnhaol a delio'n effeithiol gydag ymddygiad annerbyniol, a sut i wneud hynny*
23. *sut i ymyrryd er mwyn rhwystro niwed neu ei gyfyngu*

Hwyluso a chynnal rhaglenni awyr agored

24. ffyrdd o gydnabod gwahanol gyfyngiadau corfforol ac emosiynol y sawl sy'n cymryd rhan a'u hannog i gadw eu hurddas a'u hunan barch

*Cwblhau ac adolygu rhaglenni awyr agored**

25. sut i annog y sawl sy'n cymryd rhan i asesu prun ai yw'r profiad a'r amgylchedd wedi cyflawni eu hamcanion corfforol neu eraill

26. sut i alluogi'r sawl sy'n cymryd rhan i roi adborth i'w helpu i ddysgu o'u profiad, i atgyfnerthu cynnydd a chadw morâl

27. sut i nodi unrhyw bwyntiau dysgu ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

28. y mathau o gyngor, cymorth a gwybodaeth am gyfleoedd ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Amodau anffafriol

*

*

1. Tirwedd anodd
2. amodau dŵr anodd
3. tywydd

Hwyluso a chynnal rhaglenni awyr agored

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Anghenion

*

*

1. hwyl a mwynhad
2. profiadau newydd
3. antur a her
4. datblygiad personol a chymdeithasol
5. cael gwybodaeth/sgil newydd
6. ymwybyddiaeth a dealltwriaeth amgylcheddol
7. ffocws cwricwlaidd a thraws-gwricwlaidd
8. manteision iechyd meddyliol

SKAODP8



Hwyluso a chynnal rhaglenni awyr agored

[Cysylltiadau â SGC eraill](#)

SKAODP7

Hwyluso a chynnal rhaglenni awyr agored

Datblygwyd gan	SkillsActive
----------------	--------------

Dyddiad cymeradwyo	30 Maw 2021
--------------------	-------------

Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2024
--------------------------	-------------

Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
------------	---------------

Statws	Gwreiddiol
--------	------------

Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
----------------------	--------------

RCU gwreiddiol	SKAOP7
----------------	--------

Galwedigaethau perthnasol	Rheolwr, Hyfforddi Chwaraeon, Cyfarwyddwr;
---------------------------	--

Cyfes/Set	Rhaglenni Awyr Agored
-----------	-----------------------

Geiriau Allweddol	hwyluso; cyflawni; monitro; rheoli; cwblhau; awyr agored; rhaglenni; gweithgareddau; addysg; antur
-------------------	--